

CANU A CHYFLWYNO'R ALAW WERIN

(Talfyriad gan Roy Saer o sgwrs a draddodwyd yn 1968 gan Emrys Cleaver, Llywydd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru)

Mae yna reolau, mae yna dechneg, i'r gân gelf, a thechneg i'r lleisydd. Mae yna safonau arbennig ynglŷn â chynhyrchu llais. Mae dehongliad y gân gelf hefyd yn weddol eglur. Cân yr awdur yw hi, ac mae ei dehongliad hi, i raddau, wedi cael ei benderfynu ymlaen llaw i chi, a rhaid i chi barchu dymuniadau'r awdur.

'Does dim dysgu yn yr ystyr yma ar y gân werin. 'Dyn ni ddim yn dysgu hon wrth reolau, neu yn ôl y dechneg arferol. Mae'n hawdd 'nabod y cystadleuwyr sydd wedi cael eu *dysgu'n* ormodol fel y cyfryw. Mae plant yn cael eu dysgu'n ormodol o lawer iawn. Mae'n nhw'n mynd i *unawdu*; canu'r unawd fawr ar y llwyfan yn hytrach na chanu a chyflwyno'r alaw werin, yn naturiol ac yn ddi-rodres.

Mae'r gân werin, o ran ei chyflwyno a'i chanu, ar ei phen ei hun. I ddechrau, nid cân ar gopi oedd hi o gwbl, ond cân ar lafar, wedi'i throsglwyddo i lawr o enau i enau, o gof i gof, o genhedlaeth i genhedlaeth, ac wedi'i chanu a'i chanu a'i newid a'i newid. Os yw cân werin wedi ei dysgu o gopi, mae mwy o *ryddid* i chi ei mynegi hi, a mynegi eich hunan drwyddi, fel y mynnoch chi. Cyn belled ag y mae amser, rhithm a phethau elfennol felly yn y cwestiwn, cedwch siâp neu ffurf yr alaw. Cedwch nodau'r alaw hefyd – ond os bydd yna ambell nodyn arall yn dod i fewn, wel, popeth yn iawn, os nad yw hynny'n sbwylio'r alaw fel ffurf gyfan.

Mewn cymhariaeth a'r gân gelf, nid meddwl yr ŷch chi yn bennaf, wrth ganu caneuon gwerin, am gywirdeb sain, am leisio (*vocalisation*), am gyfanrwydd brawddegau, y pethau yma sy'n dod i ystyriaeth beirniad cerdd arferol, ond am *fynegi teimlad*, mynegi profiad, mewn modd syml. Dim ond i'r cyflwynydd wneud hynny mi ellwch faddau iddo/iddi am ryw wallau bach technegol. Y pwynt yw ein bod ni'n anghofio'r pethau technegol yma wrth eu canu a'u cyfleu nhw yn naturiol, a gwneud y stori'n fyw i'r gynulleidfa. (Mae'r cwmni, gyda llaw, yn achos cân werin, yn bwysig dros ben – yn cydweithio a chyd-ganu, a chyd-deimlo â'r "storiwr" neu'r cyflwynydd.)

Nid dweud ydw i, cofiwch, nad ydy'r pethau eraill yn bwysig hefyd. Mae peidio â thorri gair a brawddeg yn bwysig anghyffredin. Mae bod mewn tonyddiaeth dda yn bwysig. Gorau i gyd os bydd y llais gwychaf posibl gyda chi i ganu alaw werin. Ond dweud ydw i mai y *dehongliad* fel y cyfryw – gyda *chymorth* eich llais da, eich brawddegau celfydd a graenus, eich geirio effeithiol, a'ch lliwio a'ch pwyntio, a'ch anwylo a'ch anwesu ar ambell air – sydd bwysicaf oll mewn canu alaw werin. Y dehongliad – byw y gân, a theimlo'i phrofiad hi, a gwybod ei chefnid hi.

Mae angen i'r canu a chyflwyno fod yn gwbl naturiol a diymdrech. "Dweud" – "siarad", os mynnwch chi – y geiriau neu'r stori, gan bwyntio'r mynegiant yn ôl naws y gân, a gadael i'r alaw eich *dilyn* chi, fel petai – i *addurno*'ch stori chi. Yn y ffordd honno, wedi'r cyfan y mae caneuon gwerin wedi tyfu a datblygu o'r naill genhedlaeth i'r llall.